# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 13-09 (p4) : 4 Mehefin 2009**

## Y Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) Arfaethedig Pwyllgor Drafft 2009

### Diben

Gwneud sylwadau ar y Gorchymyn diwygiedig a'r Memorandwm Esboniadol drafft ar gyfer y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Pwyllgor ynghylch Priffyrdd a Thrafnidiaeth a'u cymeradwyo.

### Cefndir

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol drafft yn unol â Rheol Sefydlog 22.14 ac mae'n nodi cefndir y darpariaethau yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol Pwyllgor ynghylch Priffyrdd a Thrafnidiaeth, a fyddai'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol ychwanegol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol yn adlewyrchu'r newidiadau y mae'n bosibl eu gwneud i Orchymyn o ganlyniad i waith craffu'r Pwyllgor.

Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn ychwanegu'r mater a ganlyn i faes 10 o atodlen 5:

Mater 10.2

Darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau priffyrdd yng Nghymru mewn cysylltiad â datblygu a chynnal a chadw rhwydweithiau priffyrdd at ddefnydd cerddwyr neu feicwyr yn bennaf, neu'r ddau.

### Camau gweithredu ar gyfer y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar y Gorchymyn diwygiedig a'r Memorandwm Esboniadol ac i'w cymeradwyo. Gofynnir wedyn i'r Pwyllgor gadarnhau a yw'n dymuno bwrw ymlaen gyda'i Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Priffyrdd a Thrafnidiaeth.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Mehefin 2009**